**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
# Ceredigion
**Public Services Board**

Caru•Love Ceredigion

**COFNODION**

**Cyfarfod 27**

**17 Medi 2021, 10:00am**

**Cyfarfod dros Zoom**

DRAFT

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Cyng. Ellen ap Gwynn (EaG) | Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Hazel Lloyd-Lubran (HLL) | CAVO |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Duncan Hamer (DH) | Llywodraeth Cymru |
| Carys Morgans (CM) | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys |
| Gwilym Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol y Drindod Dewi Sant |
| Anna Bird (AB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Cyng. Elwyn Williams (EW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Eifion Evans (EE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rhodri Llwyd Morgan (RhLlM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Cyng. Ben Davies (BD) | Un Llais Cymru |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion/ Coleg Sir Gâr |
| **Tîm Cymorth BGC/PSB** | |
| Diana Davies (DD) | Rheolwr Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad (Cyngor Sir Ceredigion - CSC) |
| Nia Wyn Jones (NWJ) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| Manon Horscroft (MH) | Swyddog Cymorth (CSC) |
| Cathryn Morgan (CM) | Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid (CSC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rachel Bentley (RB) | CLES |
| Thomas Vetter (TV) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| James Gibb (JG) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **27.1** | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant** |

Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb. Nid oedd dim datganiadau o fuddiant.

**Ymddiheuriadau:**

Uwcharolygydd Robyn Mason, Heddlu Dyfed-Powys
Prif Arolygydd Christina Fraser, Heddlu Dyfed-Powys
Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Pat Smith, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf a Chyfiawnder
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gillian Wells, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ros Jervis, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Caitlin Theodorou, Cyngor Sir Ceredigion
Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Dr Andrew Cornish, Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr

| **27.2** | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 12.07.21** |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.07.21 yn gywir.

| **27.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol** |
|---|---|

Nid oedd dim materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

| **27.4** | **Diweddariad am Raglen bartner: Adeiladu Cyfoeth Cymunedol (CLES)** |
|---|---|

Mae Rachel Bentley (RB) a'r tîm wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phum ardal glwstwr yng Nghymru, gan gynnwys BGC Ceredigion, i gyflwyno ac ymgorffori egwyddorion Adeiladu Cyfoeth Cymunedol. Mae'r map trywydd yn mynd rhagddo ac mae'r prosiect wedi cyrraedd Cam 4: Gweithredu'r cynlluniau gwaith. Bydd y gweithgorau'n bwrw ymlaen â hyn.

Cynhelir digwyddiad ar gyfer busnesau cymdeithasol a'r VCSE ar 28 Medi fel rhan o 'Thema 3 – Galluogi cyflenwyr trydydd sector a chydweithredol i gystadlu ar lefel gyfartal'. Cytunwyd, er mwyn bod mor effeithiol â phosib, fod angen cynrychiolaeth o sefydliadau 'angor' y BGC yn ogystal â'r cyflenwyr trydydd sector a chydweithredol. Gwnaed cais am fwy o gefnogaeth gan y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cychwynnol.

**CAM GWEITHREDU: Tîm y BGC i gylchredeg eto y gwahoddiad i'r digwyddiad Busnesau Cymdeithasol ar 28 Medi.**

Thema 5 yw Caffael Bwyd; mae hyn wedi'i flaenoriaethu gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill felly mae cyfle i rannu arfer da.

DRAFT

Nododd Duncan Hamer (DH) fod blaenoriaethau'r rhaglen hon yn cyfateb i rai o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ardal Powys/Ceredigion. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud, er enghraifft, sefydlu GwerthwchiGymru a chynnig cymorth i fusnesau sy'n cychwyn arnynt.

**CAM GWEITHREDU: Rachel Bentley i rannu cyflwyniad PowerPoint y rhaglen bartner Adeiladu Cyfoeth Cymunedol gydag aelodau'r BGC drwy'r Tîm BGC.**

| 27.5 | Adroddiad Blynyddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020/21 |
|---|---|

Cyflwynodd Cathryn Morgan (CM) Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi.

Bydd gwaith yr is-grŵp Tlodi BGC yn bwydo i mewn i'r Asesiad Llesiant presennol a bydd canfyddiadau'r Asesiad Llesiant yn llywio'r Strategaeth nesaf 'Mynd i'r Afael â Chaledi'.

Nodwyd nad yw'r meysydd penodol sy'n peri pryder i'r BGC ac sydd i'w hystyried yn flaenoriaeth yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad ac nad oes llwybr ffurfiol i gasglu'r wybodaeth hon o fewn y fframwaith monitro presennol.

**CAM GWEITHREDU: Cathryn Morgan i addasu fframwaith monitro'r cynllun gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi i gynnwys ffyrdd o gasglu pryderon i'r BGC weithredu yn eu cylch.**

Cynigiodd Rhodri Llwyd Morgan (RhLlM) fod Prifysgol Aberystwyth yn cyfrannu i gynllun gweithredu'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ac yn ei gefnogi.

**CAM GWEITHREDU: Cathryn Morgan a Rhodri Llwyd Morgan i drafod ymhellach yn dilyn y cyfarfod.**

Gofynnodd Iwan Cray (IC) i CM ailystyried y llun ar dudalen flaen yr adroddiad.

**CAM GWEITHREDU: Cathryn Morgan i newid y llun ar flaen y ddogfen.**

Dywedodd cydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau eu bod yn gweld cynnydd yn nifer y cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl ac yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddarpariaeth ddigonol i'w cefnogi. Ni welwyd wyneb yn wyneb rai o'r bobl sy'n hawlio ers mis Mawrth 2020. Mae pryderon hefyd ynghylch dileu'r £20 yr wythnos a ychwanegwyd at y Credyd Cynhwysol.

| 27.6 | Fframwaith Gweithredu yn seiliedig ar le – cynigion ar gyfer prosiectau peilot |
|---|---|

Dywedodd Hazel Lloyd-Lubran (HLL) fod Grwpiau Prosiect y BGC bellach wedi dechrau'r newid tuag at fframwaith darparu ar sail lleoedd.

Cyfarfu aelodau presennol y Grŵp Prosiect BGC yng Ngorffennaf/Awst i ystyried y dull hwn sy'n seiliedig ar le. Cyfarfu Cadeiryddion y Grŵp Prosiect ar 6 Medi i ystyried yr adborth a'r

syniadau posib ar gyfer brosiectau. Cyflwynir y tri phrosiect isod i'r BGC i'w hystyried fel Prosiectau Peilot seiliedig ar Le ar gyfer cyfnod Cynllun Llesiant Lleol 2018-2023. Fe'u dewiswyd am eu bod yn cynnig cyfleoedd i bartneriaid y BGC gydweithio ac ychwanegu gwerth at bob un o'r prosiectau.

1. Canolfan Llesiant – Llanbedr Pont Steffan
2. Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio
3. Iechyd Cymunedol ac Atebion Cymdeithasol ar gyfer trechu Tlodi a hyrwyddo Lles yn Aberteifi

Mae gwaelod y ddogfen yn rhestru adnoddau a ffyrdd o weithio a ddylai blethu drwy'r 3 phrosiect. Diolchodd HLL i holl aelodau'r Grŵp Prosiect am gyfrannu.

**CAM GWEITHREDU: Cytunodd aelodau'r BGC ar y fframwaith cyflawni newydd ar sail lle ac anogwyd yr aelodau i gadw aelodau presennol y grŵp prosiect ynghlwm yn y gwaith lle bo modd.**

Agorodd Diana Davies (DA) drafodaeth ar enwebu aelodau o'r BGC i arwain ar bob un o'r tri Grŵp Prosiect allweddol. Ni ddaeth hyn i fwcwl.

**CAM GWEITHREDU: Tîm Cymorth y BGC i gael trafodaethau pellach ynghylch arweinwyr posib ar gyfer pob prosiect ac aelodau ar gyfer y tri grŵp prosiect newydd.**

Awgrymodd y Cadeirydd fod Aelod Etholedig o'r Cabinet yn eistedd ar bob Grŵp Prosiect i hyrwyddo'r gwaith ac enwebodd y canlynol:

1. Canolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan – Y Cynghorydd Catherine Hughes, sydd â gwasanaethau hamdden a lles ymhlith ei chyfrifoldebau.
2. Aberystwyth Carbon Niwtral - Y Cynghorydd Alun Williams, Hyrwyddwr Cynaliadwyedd yr Aelodau ac aelod etholedig ward Bronglais, Aberystwyth,.
3. Cymuned Aberteifi - Y Cynghorydd Catrin Miles, Hyrwyddwr yr Aelodau dros Blant a Phobl Ifanc a threchu tlodi. Hefyd yn aelod etholedig dros ward Teifi, Aberteifi.

**CAM GWEITHREDU: Tîm Cymorth y BGC i gysylltu â'r Aelod Etholedig a enwebwyd o'r Cabinet i ofyn am eu cefnogaeth i'r tri grŵp prosiect newydd.**

| **27.7** | **Y diweddaraf o ran Grwpiau Prosiect y BGC:** |
|---|---|

**i. Menter ac Arloesedd**

Dywedodd y Cadeirydd fod y wybodaeth ganlynol wedi'i dosbarthu i aelodau'r Bwrdd drwy e-bost brynhawn ddoe a darllenodd y neges ar ran Russell Hughes-Pickering, Cadeirydd y Grŵp Prosiect, nad oedd yn gallu bod yn y cyfarfod.

Roedd Grŵp Gorchwyl o'r Grŵp Prosiect Menter ac Arloesi wedi cyfarfod yn gynharach yr wythnos hon ac wedi paratoi'r canlynol i'r Bwrdd ystyried:

"Ceredigion – Lle Cyfleoedd – Gweithlu Ein Dyfodol" .

Er mwyn canolbwyntio'n benodol ar Les Economaidd Ceredigion, mae angen ystyried o ble y bydd y sgiliau a'r bobl yn dod yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae busnesau yn wynebu heriau o ran nodi a chael gafael ar bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol i hwyluso twf y busnes. Mae canfyddiad hefyd fod Ceredigion yn brin o ran y cyfleoedd economaidd a gynigir.

Mae colli poblogaeth ymhlith y garfan sy'n economaidd weithgar yn parhau i fod yn realiti ac mae angen gwneud rhagor o waith i newid y naratif parthed y cyfleoedd y gellir eu cynnig ar lefel leol. Mae angen ystyried y pedair haen weithredu, hynny yw, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac ar lefel y DU, a byddai'r dull hwn, wrth gwrs, yn gosod Ceredigion yng nghanol y cynllun peilot hwn sy'n seiliedig ar le. Fel cynllun peilot ledled y Sir, gallai hyn fod yn opsiwn deniadol sy'n cynnig y potensial i ategu'r cynlluniau peilot eraill a gynigir. Er mwyn anelu am lwyddiant, byddai angen i bartneriaid weithio ar y cyd a chyfuno adnoddau i fynd i'r afael â chanfyddiad pobl ifanc o Geredigion fel lle i fyw, i weithio a hefyd i gymdeithasu.

Mae partneriaid unigol eisoes yn ymgymryd ag elfennau o'r gwaith hwn ond byddai'r BGC yn ychwanegu gwerth pellach drwy gydweithio o ran adnoddau ac ymdrechion. Mae'n hanfodol canolbwyntio ar addysg, sgiliau, gyrfaoedd a mentora llwybrau a fyddai'n pontio'r bwlch rhwng dyheadau unigolion a gofynion cyflogwyr. Yn enwedig, gallai entrepreneuriaid ifanc elwa'n uniongyrchol o gefnogaeth arweinwyr busnes. Mae'r peilot yn cynnig cyfle i ddefnyddio arolygon cyrchfan, mapio anawsterau, ystyried cynlluniau megis rhaglen Paru Graddedigion a mynd i'r afael yn effeithiol - mewn ffordd amlasiantaethol - â'r pedair colofn a nodir yn y Strategaeth Economaidd.  Mae partneriaid am ystyried a fyddai modd sefydlu lle i bobl ifanc archwilio'u syniadau ar gyfer dechrau busnes drwy greu cymuned fenter gefnogol sy'n canolbwyntio ar gydweithio a mentora.

Nododd y Cadeirydd fod y materion a ddisgrifir uchod yn bwysig iawn ac y byddent, gobeithio, yn cael eu dwyn ynghyd yn rhanbarthol drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru.  Wrth i faterion ddod yn eu blaen, bydd yn bwysig inni fanteisio ar bob cyfle lleol, gan gynnwys cyfleoedd ariannu pan fyddant ar gael, yn enwedig y rhai a ddaw'n uniongyrchol i'r siroedd o San Steffan.  Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**ii. Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd er lles Iechyd**

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod blaenorol 16.08.2021 cyn y cyfarfod.

**iii. Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol**

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod blaenorol 29.07.2021 cyn y cyfarfod.

### iv. Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod blaenorol 20.07.2021 cyn y cyfarfod.

### v. Grŵp Prosiect Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen:

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod blaenorol 26.07.2021 cyn y cyfarfod.

### vi. Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod blaenorol 13.08.2021 cyn y cyfarfod.

Nid oedd dim materion yn codi o'r Cofnodion ar gyfer pob Grŵp Prosiect a diolchodd y Cadeirydd i Gadeiryddion y Grwpiau Prosiect am eu gwaith.

| 27.8 | Asesiad o Lesiant Lleol |
|---|---|

Rhoddodd Rob Starr (RS) ddiweddariad bras ar gynnydd y gwaith ar yr Asesiad Llesiant Lleol. Mae'r safle Ymgysylltu canolog newydd Dweud eich Dweud/ Have your say bellach yn fyw ac yn galluogi pobl i ymateb i'r Asesiad mewn ffordd fwy rhyngweithiol. Mae'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol wedi bod yn fyw ers dechrau mis Awst a bydd yn cau ar 8 Hydref. Mae digwyddiadau ymgysylltu ar y gweill ac mae dolenni i'r arolwg yn cael eu postio'n rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae nifer yr ymatebwyr i'r arolwg yn codi'n ddyddiol. Mae'r Cydlynydd Llesiant Rhanbarthol newydd bellach wedi'i benodi ac yn cyfrannu'n rhagorol i'r tîm. Cyflwynir drafft cyntaf yr Asesiad a'r prif ganfyddiadau gerbron cyfarfod y BGC ganol mis Tachwedd.

Mae ymatebwyr BAME, dynion a phobl o dan 24 oed yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y broses ymgysylltu a gofynnodd RS am gymorth oddi wrth y ddwy Brifysgol a Choleg Ceredigion i helpu i gasglu barn y genhedlaeth iau.

**CAM GWEITHREDU: Rob Starr i gysylltu â Vanessa Cashmore, Rhodri Llwyd Morgan a Gwilym Dyfri Jones i ofyn iddynt ddosbarthu arolwg yr Asesiad o Lesiant Lleol i'w myfyrwyr.**

| 27.9 | Cynllun Adleoli pobl o Affganistan |
|---|---|

Ar 7 Medi, cymeradwyodd aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion y penderfyniad i gynnig adleoli o leiaf dau deulu o dan gynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan. Mae dau eiddo bellach wedi'u nodi o'r sector rhentu preifat ac mae gwaith bellach ar y gweill i baratoi ar gyfer dyfodiad dau deulu i Geredigion. Gwahoddwyd aelodau'r BGC i gefnogi'r cynllun a chael diweddariadau drwy grŵp BGC Ceredigion, 'Adleoli Ffoaduriaid'.

**Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r cynllun adleoli yng Ngheredigion a'i fod yn cael ei fonitro gan grŵp BGC Ceredigion, Adleoli Ffoaduriaid.**

| 27.10 | Unrhyw fater arall |
|---|---|

DRAFT

Nid oedd yr un mater arall. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau parhaus i'r trafodaethau.

| 27.11 | **<u>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</u>** |
|---|---|

**18fed o Dachwedd 2021**, 13:30-15:30
**7fed o fis Mawrth 2022,** 13.30-15.30

DRAFT